**Sesiwn 2000-2001 Rhif 44**

**PAPURAU BUSNES**

**DYDD IAU, 18 IONAWR 2001**

**RHAN 1 – ADRAN A**

**AGENDA**

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cymeradwyo Amserlen 3 Mis o Fusnes y Cynulliad**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'r amserlen 3 mis arfaethedig o Fusnes y Cynulliad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2001, yn unol â rheol sefydlog 5.1.

**Dadl ar Ymgynghori a Chyfranogi**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

- Yn cadarnhau ei gefnogaeth i ddull cyfranogol o lywodraethu Cymru ac yn cydnabod

arwyddocâd cyfranogaeth y cyhoedd o ran datblygu polisïau cyhoeddus effeithiol ac unigryw yng Nghymru.

- Yn nodi’r ddogfen o’r enw ‘Engaging Wales – Consultation and Participation’ (a ddosbarthwyd i Aelodau’r Cynulliad dros yr e-bost ar y 11 Ionawr 2001) fel rhan o adolygiad sydd ar y gweill o weithdrefnau’r Cynulliad.
- Yn cydnabod y bydd angen datblygu ffyrdd newydd o weithredu er mwyn gwir sicrhau bod rhan i’r sawl a oedd gynt wedi cael eu heithrio o brosesau gwleidyddol

**Mae'r gwelliannau canlynol wedi eu cyflwyno:**

Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth - ond bydd y pleidleisiau yn cael eu cymryd yn unigol.

(1)+(2)+(3)

(4)

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Dileu’r pwynt bwled cyntaf a rhoi pwynt bwled newydd, sydd yn darllen fel a ganlyn, yn ei le:

- Yn cadarnhau ei gefnogaeth i ddull cyfranogol o lywodraethu Cymru.

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Dileu’r ail bwynt bwled.

**3. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Dileu’r trydydd pwynt bwled a rhoi pwynt bwled newydd, sydd yn darllen fel a ganlyn, yn ei le:

- Yn sefydlu ffyrdd newydd, mwy creadigol o roi gwybod i bobl am y materion sydd yn

effeithio arnynt yn uniongyrchol, ac yna, ar ôl ymgynghori, darparu fformat syml i’w galluogi i wir gyfrannu at y prosesau sy’n effeithio ar eu bywydau.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl y trydydd pwynt bwled, ychwanegu:

Ond yn gresynu nad yw’r Cabinet hyd yn hyn wedi dangos llawer o awydd i ymgynghori neu gyfranogi mewn modd ystyrlon, nac i roi ystyriaeth ddigonol i’r cyflwyniadau a wnaed.

**Dadl Fer:** (i bara am 30 munud)
**Gwenda Thomas (Castell-nedd); Fy hawl i fod yn Mrs ac yn wraig**

**Disgwylir i’r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 23 Ionawr 2001**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**